

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Rhoi Cynllun Gweithredu Wanless ar Waith The Implementation of the Wanless Action Plan

Q8 Huw Lewis: Will the Minister provide an update on the implementation of the Wanless action plan in Merthyr Tydfil and Rhymney? (OAQ40423)

C8 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu cynllun gweithredu Wanless ym Merthyr Tudful a Rhymni? (OAQ40423)

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): Merthyr Tydfil Local Health Board's Wanless action plan is being taken forward positively, working with all stakeholders. More widely, the LHB is leading a review of hospital based services for the Merthyr area for which some £145 million has been earmarked for significant modernisation. I expect to see proposals in late January.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Mae cynllun gweithredu Wanless bwrdd iechyd lleol Merthyr Tudful yn cael ei weithredu'n gadarnhaol, gan weithio gyda'r holl rhanddeiliaid. Yn ehangach, mae'r bwrdd iechyd lleol yn arwain adolygiad o wasanaethau yn yr ysbyty ar gyfer ardal Merthyr, a chlustnodwyd £145 miliwn ar gyfer moderneiddio sylweddol. Disgwyliaf weld cynigion ddiwedd mis Ionawr.

Datblygu Gwasanaethau Ysbytai yng Ngheredigion Developing Hospital Services in Ceredigion

C9 Elin Jones: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer datblygu gwasanaethau ysbytai yng Ngheredigion? (OAQ40416)

Q9 Elin Jones: What plans does the Minister have for developing hospital services in Ceredigion? (OAQ40416)

Jane Hutt: Mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid yn y rhanbarth i ddatblygu gwasanaethau ysbytai a gwella mynediad i'w holl gleifion. Ar hyn o bryd, mae pedwar achos busnes yn cael eu datblygu ar gyfer cyfleusterau yng Ngheredigion.

Jane Hutt: The Ceredigion and Mid Wales NHS Trust continues to work collaboratively with its partner organisations in the region to develop hospital services and improve access for all its patients. There are currently four business cases in development for facilities in Ceredigion.

**Dyddiad Cwblhau Ysbyty Newydd Llwynypia
The Completion Date for the New Llwynypia Hospital**

Q10 Leighton Andrews: Will the Minister make a statement on the expected completion date for the new Llwynypia hospital? (OAQ40427)

C10 Leighton Andrews: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyddiad y disgwylir i Ysbyty newydd Llwynypia gael ei gwblhau? (OAQ40427)

Jane Hutt: Infrastructure work on the new hospital development commenced on site on 20 September. Construction of the main scheme is currently planned to start on site in late spring to early summer next year, with completion anticipated towards the end of 2007.

Jane Hutt: Dechreuodd gwaith seilwaith ar safle'r ysbyty newydd ar 20 Medi. Bwriedir dechrau adeiladu'r prif gynllun ar y safle rhwng diwedd gwanwyn a dechrau'r haf flwyddyn nesaf, a rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2007.

**Her Iechyd Cymru
Health Challenge Wales**

Q11 Jeff Cuthbert: Will the Minister provide an update on Health Challenge Wales? (OAQ40466)

C11 Jeff Cuthbert: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Her Iechyd Cymru? (OAQ40466)

Jane Hutt: In preparation for the national public awareness campaign, which will commence in the new year, my officials and I have had very positive dialogue with organisations across all sectors. They range from national organisations to those based in the local community, as well as major high street retailers.

Jane Hutt: Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, a fydd yn dechrau yn y flwyddyn newydd, bu i'm swyddogion a minnau gael deialog cadarnhaol iawn gyda chyrrff ar draws pob sector. Maent yn amrywio o gyrff cenedlaethol i rai sydd wedi eu lleoli yn y gymuned leol, yn ogystal â siopau mawr y stryd fawr.

**Buddsoddiad Cyfalaf yn y GIG ym Mhreseli Sir Benfro
Capital Investment in the NHS in Preseli Pembrokeshire**

Q12 Tamsin Dunwoody-Kneafsey: Will the Minister make a statement on capital investment in the NHS in Preseli Pembrokeshire? (OAQ40413)

C12 Tamsin Dunwoody-Kneafsey: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fuddsoddiadau cyfalaf yn y GIG ym Mhreseli Sir Benfro? (OAQ40413)

Jane Hutt: There has been considerable capital investment in NHS trust services available to Preseli Pembrokeshire totalling over £36 million. Developments include new community hospitals for Tenby and south Pembrokeshire, and mental health schemes in Carmarthen and Pembrokeshire.

Jane Hutt: Gwnaed buddsoddiad cyfalaf sylweddol o dros £36 miliwn yng ngwasanaethau ymddiriedolaeth y GIG ym Mhreseli Sir Benfro. Mae'r datblygiadau'n cynnwys ysbytai cymuned ar gyfer Dinbych-y-pysgod a de sir Benfro, a chynlluniau iechyd meddwl yng Nghaerfyrddin a sir Benfro.

**MRSA yn Ysbytai Cymru
MRSA in Welsh Hospitals**

Q13 William Graham: Will the Minister make a statement on the progress to tackle MRSA in Welsh hospitals? (OAQ40444)

C13 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a wnaed i fynd i'r afael â MRSA yn ysbytai Cymru? (OAQ40444)

Jane Hutt: We aim to make progress on tackling all healthcare associated infections. To this end, on

Jane Hutt: Ein nod yw bwrw ymlaen o ran mynd i'r afael â phob haint sy'n gysylltiedig â gofal

9 September, I launched a strategy to tackle all healthcare associated infections in hospitals. In line with that emphasis on all infections, I have written to the Welsh healthcare associated infections subgroup, which developed the strategy, asking it to review the collection and publication of information on infections in hospitals and to make recommendations to me by Christmas. A consultation will be held on its recommendations.

iechyd. I'r perwyl hwn, ar 9 Medi, lansiais strategaeth i fynd i'r afael â phob haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Yn unol â'r pwyslais hwnnw ar bob haint, ysgrifennais at is-grŵp heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, a ddatblygodd y strategaeth, gan ofyn iddo adolygu'r dulliau o gronni a chyhoeddi gwybodaeth am heintiau mewn ysbytai, a chynnig argymhellion imi erbyn y Nadolig. Cynhelir ymgynghoriad ar ei argymhellion.

Strwythur y GIG The Structure of the NHS

Q14 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the robustness of the structure of the NHS after 18 months of the new structure being in operation? (OAQ40456)

C14 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi pa mor gadarn yw strwythur y GIG ymhen 18 mis ar ôl i'r strwythur newydd gael ei gyflwyno? (OAQ40456)

Jane Hutt: The local health boards and Health Commission Wales are now well established. LHBs, with local authorities, are preparing to implement their joint local health, social care and wellbeing strategies. Benefits since restructuring include falls in waits for cataract treatments and heart surgery and in bed days lost through delayed transfers.

Jane Hutt: Mae byrddau iechyd lleol a Hybu Iechyd Cymru wedi eu hen sefydlu erbyn hyn. Mae'r byrddau iechyd lleol, gyda'r awdurdodau lleol, yn paratoi i weithredu eu strategaethau iechyd lleol, gofal cymdeithasol a iechyd a lles ar y cyd. Mae'r buddion ers ailstrwythuro yn cynnwys gostyngiadau yn yr amserau aros ar gyfer triniaethau cataractau a llawdriniaeth ar y galon ac o ran y dyddiau gwely a gollir oherwydd oedi wrth drosglwyddo.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ40441) yn ôl.
Question 15 (OAQ40441) withdrawn.*

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Dechrau Da Bookstart

Q3 Gwenda Thomas: Will the Minister make a statement on the Bookstart scheme in Wales. (OAQ40376) *Transferred for answer by the Minister for Education and Lifelong Learning.*

C3 Gwenda Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynllun Dechrau Da yng Nghymru. (OAQ40376) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.*

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): The Bookstart programme is funded as part of the all-age national strategy for basic skills in Wales. It aims to ensure that every baby born in Wales can benefit from an early introduction to books by delivering a free Bookstart pack containing bilingual baby books, advice, information and an invitation to join the local library at the time of the baby's eight to nine-month health check. There is also a second

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Ariennir rhaglen Dechrau Da fel rhan o strategaeth genedlaethol bob oedran ar gyfer sgiliau sylfaenol yng Nghymru. Ei nod yw sicrhau y gall pob baban a enir yng Nghymru elwa ar gyflwyniad cynnar i lyfrau drwy roi pecyn Dechrau Da am ddim sy'n cynnwys llyfrau dwyieithog i fabanod, cyngor, gwybodaeth a gwahoddiad i ymuno â'r llyfrgell leol adeg archwiliad iechyd y baban pan fo'n wyth i naw mis oed. Mae hefyd ail

distribution of books when babies reach 18 months, including the Basic Skills Agency's 'Stories, Songs and Rhymes: A collection for babies and grown-ups' book and CD, which encourages parents and/or carers to sing and talk with their children.

ddosbarthiad o lyfrau pan gyrhaedda babanod eu 18 mis sy'n cynnwys llyfr a chryno-ddisg yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, 'Straeon, Caneuon a Rhigymanu: Casgliad i fabanod ac oedolion', sy'n annog rhieni ac/neu ofalwyr i siarad a chanu gyda'u plant.

*Atebwyd cwestiynau 4 i 14 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 4 to 14 were answered in Plenary.*

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ40378) yn ôl.
Question 13 (OAQ40378) was withdrawn.*

Denu Menywod at Chwaraeon Attracting Women into Sport

Q15 Christine Chapman: What are the Welsh Assembly Government's plans to attract more women into sport? (OAQ40372)

C15 Christine Chapman: Beth yw cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i ddenu mwy o fenywod at chwaraeon? (OAQ40372)

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): I refer you to the answer I gave earlier to Rosemary Butler's OAQ40368.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais yn gynharach i OAQ40368 gan Rosemary Butler.